# Adolygiad y Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol: Datganiad - Rhan 1

## Marchnadau, penderfyniadau a datrysiadau pwer y farchnad

**DATGANIAD:**

Hysbysebiad i'r Comisiwn Ewropeaidd: 28 Mawrth 2018

# 1. Crynodeb gweithredol

1.1 Mae band eang wedi dod yn fwyfwy pwysig i bobl a busnesau. Mae pob un ohonom yn fwy dibynnol nag erioed ar y rhyngrwyd ar gyfer busnes, bancio, siopa, adloniant a chymdeithasu.

1.2 Mae gan bron bob cartref a swyddfa yn y DU fynediad at gyflymderau band eang ‘cyflym iawn’ o 30Mbit yr eiliad neu fwy, ac mae cyflymder cyfartalog cysylltiadau wedi cynyddu o 18 yr eiliad i 36 yr eiliad yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae defnydd data preswyl wedi codi 36% o un flwyddyn i'r llall ac mae hyn yn rhannol oherwydd twf mewn gwasanaethau dros y rhyngrwyd fel Netflix ac Amazon Prime. Mae busnesau bach a chanolig, yn ogystal â swyddfeydd cangen llai mewn sefydliadau mwy yn defnyddio gwasanaethau yn y cwmwl sy’n dibynnu ar gysylltiadau cyflym, dibynadwy a chyson.

1.3 Er bod y cynnydd yn galonogol, mae mwy i’w wneud i sicrhau bod y wlad yn barod i fanteisio ar ragor o ddatblygiadau technolegol. Mae angen rhagor o fuddsoddiad i adeiladu rhwydweithiau band eang sy’n addas ar gyfer y 21ain ganrif. Mae hyn yn cynnwys rhwydweithiau ffibr llawn sy’n gallu darparu cyflymderau o 1Gbit yr eiliad neu fwy, sy’n fwy dibynadwy na rhwydweithiau copr, gyda phum gwaith yn llai o ddiffygion; ac sy’n gallu sicrhau perfformiad mwy cyson gyda chyflymderau tebycach i'r rhai sy’n cael eu hysbysebu.

1.4 Rydym yn credu mai cystadleuaeth rhwng gwahanol rwydweithiau yw’r ffordd fwyaf effeithiol o sbarduno rhagor o arloesi a buddsoddi mewn rhwydweithiau ffibr o ansawdd uchel. Mae Project Lightning gan Virgin Media (sy’n bwriadu cyrraedd pedair miliwn yn rhagor o adeiladau) wedi symbylu BT i ddatblygu ei dechnoleg G.fast, sydd wedi’i ddylunio i ddarparu cyflymderau hyd yn oed cyflymach o’i rwydwaith copr. Yn ein Hadolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol fe wnaethom nodi, o edrych ar y dadansoddiad o'r dosbarthiad rhwydwaith ledled nifer o wahanol wledydd, bod graddfa’r ddarpariaeth ffibr llawn yn tueddu i gyfateb i lefel y gystadleuaeth rhwng rhwydweithiau.

1.5 Mae hyrwyddo cystadleuaeth yn ganolog i’n hymdrechion i ysgogi buddsoddiad yn sector telegyfathrebiadau'r DU a’r seilwaith sydd ei hangen ar y wlad. Felly rydym wedi mabwysiadu newid strategol pwysig i annog buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffibr llawn ar raddfa fawr, a symud oddi wrth ddibynnu ar dechnolegau rhwydwaith presennol BT sy’n seiliedig ar gopr yn bennaf. Bydd y dull rheoleiddiol hwn yn cefnogi ymrwymiadau diweddar gan gwmnïau band eang i gysylltu sawl miliwn o adeiladau â ffibr llawn yn ystod y blynyddoedd nesaf, ac y mae wedi'i ddylunio i annog rhagor o fuddsoddiad y tu hwnt i’r uchelgeisiau hyn.

1.6 Mae dau fesur ategol y gallwn eu defnyddio i annog buddsoddiad cystadleuol mewn rhwydweithiau:

- lleihau’r gost a’i gwneud yn gyflymach ac yn haws i ddarparwyr sy’n cystadlu â’i gilydd adeiladu eu rhwydweithiau eu hunain;

- sicrhau bod gan y darparwyr sy'n cystadlu â’i gilydd gymhellion priodol i adeiladu eu rhwydweithiau eu hunain yn hytrach na phrynu gwasanaethau cyfanwerthol gan Openreach, y cwmni telegyfathrebiadau sy’n eiddo i BT.

1.7 Y gost fwyaf sy’n gysylltiedig â chyflwyno rhwydwaith yw cost y seilwaith ffisegol, fel pibellau tanddaearol a pholion telegraff. Mae BT yn berchen ar rwydwaith eang o’r pibellau hyn ledled y wlad ac mae tua 90% ohonynt yn debygol o gynnwys lle i osod ceblau ffibr newydd. Drwy agor pibellau a pholion BT i alluogi gweithredwyr eraill i osod eu rhwydweithiau ffibr eu hunain, rydym yn rhagweld y gellir sicrhau gostyngiad o oddeutu 50% yn y costau ymlaen llaw sy’n gysylltiedig ag adeiladu’r rhwydweithiau ffibr. Mae modd cyflwyno'r gwasanaethau hyn yn llawer cyflymach hefyd. Er enghraifft, mae hi’n gallu cymryd dyddiau i adeiladu 200 metr o bibell drwy ddefnyddio dulliau adeiladu traddodiadol, ond gellir gosod ceblau ffibr yn yr un hyd o bibell sydd eisoes ar gael mewn ychydig o oriau. Gall mynediad effeithiol at bolion a phibellau drawsnewid yr achos busnes dros fuddsoddi mewn rhwydweithiau ffibr llawn.

1.8 Ond ni fydd darparwyr sy'n cystadlu â’i gilydd ond yn buddsoddi yn y gwaith o adeiladu eu rhwydweithiau eu hunain os yw hyn yn fwy deniadol na phrynu gwasanaethau cyfanwerthol gan BT, fel mae llawer yn ei wneud ar hyn o bryd. Felly mae pris gwasanaethau cyfanwerthol BT yn chwarae rhan bwysig o ran cymhellion buddsoddi. I bennu prisiau rheoledig lle mae posibilrwydd o gystadleuaeth, mae angen cydbwysedd rhwng cadw’r cymhellion i fuddsoddi mewn rhwydweithiau newydd (a all arwain at fuddiannau tymor hwy i ddefnyddwyr, fel dewis ac arloesi), a’r risg o brisiau adwerthu uwch (a fyddai’n niweidio defnyddwyr yn y tymor byr).

1.9 Mewn egwyddor, efallai y byddwn yn ceisio sicrhau’r cydbwysedd hwn drwy gydnabod bod cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau yn bosibl mewn rhai rhannau o’r wlad ond dim pob un: blaenoriaethu cymhellion i fuddsoddi mewn rhwydweithiau newydd mewn ardaloedd daearyddol sydd â'r posibilrwydd o fod yn gystadleuol, ac amddiffyn defnyddwyr mewn ardaloedd sydd ddim. Fodd bynnag, yn ystod y cam hwn, mae’r diffyg tystiolaeth o ran lle bydd gwahanol gwmnïau yn adeiladu rhwydweithiau newydd yn ei gwneud yn anymarferol pennu ffiniau rhwng yr ardaloedd daearyddol hyn ar gyfer yr adolygiad hwn.

1.10 Fel opsiwn arall, rydym yn credu bod y cyfuniad o ddarparu hyblygrwydd prisiau ar gyfer gwasanaethau - cyflymder uwch dros 40Mbit yr eiliad, a rheoli prisiau BT ar gyfer ei wasanaethau cyfanwerthu yn sicrhau cydbwysedd rhesymol. Lle bo buddsoddiad mewn rhwydweithiau newydd, mae hyn yn debygol o fod mewn rhwydweithiau ffibr llawn sy’n gallu darparu cyflymderau llawer uwch. Bydd rhoi hyblygrwydd prisiau ar gyfer gwasanaethau - cyflymder uwch yn helpu i gefnogi’r cyfleoedd buddsoddi hyn. I’r gwrthwyneb, mae rhwydweithiau copr, sy’n cael eu defnyddio i ddarparu band eang cyflym iawn cyflymder is, bellach wedi’u hen sefydlu. Bydd ein rheolaeth ar brisiau yn amddiffyn defnyddwyr y gwasanaethau hyn rhag y risg o brisiau uchel.

1.11 Dros amser, byddem yn disgwyl mabwysiadu dull rheoleiddio sy’n ystyried sut mae cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau yn datblygu mewn gwahanol ardaloedd daearyddol. Mewn ardaloedd lle mae tystiolaeth bod pwysau cystadleuol effeithiol yn dod i'r amlwg, byddem yn disgwyl dadreoleiddio. I'r gwrthwyneb, ar gyfer y llefydd y mae’n dod i'r amlwg

na fydd cystadleuaeth ynddynt, mae risg gynyddol o brisiau uchel ar gyfer gwasanaethau cyflymder uwch. Yn yr ardaloedd daearyddol hynny, byddem yn disgwyl rheoli pris cyfanwerthol y gwasanaethau cyflymder uwch er mwyn sicrhau bod pobl yn parhau i gael bargen dda am eu gwasanaethau band eang. Fe lwyddodd y dull hwn o reoleiddio sy'n gwahaniaethu ar sail ardaloedd daearyddol i hyrwyddo cystadleuaeth mewn gwasanaethau band eang copr yng nghanol y 2000au.

1.12 Bydd yn cymryd amser i adeiladu rhwydweithiau ffibr yn y dyfodol ac ni fydd yn bosibl cael cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau ym mhob ardal o'r wlad. Yn yr adolygiad hwn, rydym wedi penderfynu rhoi mesurau ar waith i amddiffyn defnyddwyr sy'n dibynnu ar rwydwaith presennol BT.

### Y prif benderfyniadau

Yn y ddogfen hon, dyma'r prif fesurau rydym yn eu rhoi ar waith i hyrwyddo cystadleuaeth:

- gwella mynediad at bolion a phibellau BT er mwyn ei gwneud yn haws ac yn rhatach i gystadleuwyr adeiladu eu rhwydweithiau ffibr eu hunain;
- parhau i gynnig hyblygrwydd prisiau ar gyfer gwasanaethau cyfanwerthol BT â chyflymderau uwch na 40Mbit yr eiliad, gan gyflwyno rheolaeth ar brisiau BT ar gyfer ei wasanaethau cyfanwerthol 'hyd at 40Mbit yr eiliad' er mwyn cefnogi cymhellion i fuddsoddi mewn adeiladu rhwydweithiau ffibr;
- cynnal mynediad a rheolaeth prisio ar rwydwaith copr BT i amddiffyn defnyddwyr yn ystod y cyfnod pontio sy'n arwain at ragor o gystadleuaeth rhwng rhwydweithiau.

1.13 Caiff y mesurau hyn eu hategu gan gymhellion eraill i hybu buddsoddiad yn y rhwydwaith:

- Cynlluniau i ddiwygio Openreach, adran rhwydwaith BT, i fod yn gwmni ar wahân yn gyfreithiol, sy'n fwy agored i wahanol fodelau buddsoddi a rhannu risg, a chanddo gymhellion cryfach i fod yn ymatebol i'w holl gwsmeriaid, gan gynnwys wrth ystyried dewisiadau buddsoddi mewn technoleg.
- Mae Llywodraeth y DU yn gweithio ar wella'r achos busnes ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith yn y dyfodol drwy nifer o gymhellion, gan , gynnwys ei rhaglen Rhwydweithiau Ffibr Llawn Lleol, y Gronfa Buddsoddi mewn Seilwaith Digidol, rhyddhad ardrethi busnesau ar gyfer rhwydweithiau ffibr, a'r Tasglu Goresgyn Rhwystrau.
- Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd band eang cyffredinol yn cael ei ddarparu yn unol â Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO), a fydd yn rhoi mynediad i gyflymderau o leiaf 10Mbit yr eiliad i bawb yn y DU erbyn 2020. Byddwn yn barod i roi'r USO ar waith pan fydd y Llywodraeth yn pasio'r ddeddfwriaeth eilaidd angenrheidiol.
- Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon hefyd wedi cyhoeddi cynlluniau i gyflwyno buddiannau i nifer o gartrefi a busnesau yn y gwledydd hynny.

1.14 Gyda'i gilydd, bydd y cymhellion hyn yn gweithio tuag at y flaenoriaeth genedlaethol o sicrhau bod gan y wlad y seilwaith band eang sydd ei hangen arni i gefnogi anghenion defnyddwyr a busnesau yn y DU, gan sicrhau eu bod yn gallu cael budd o dechnolegau newydd a gwasanaethau arloesol.

## Cyd-destun y farchnad

1.15 Mae bron pob adeilad yn y DU wedi'i gysylltu â rhwydwaith telegyfathrebu sefydlog, sy'n cael ei ddefnyddio i ddarparu band eang a ffôn, a gwasanaethau teledu yn fwy helaeth erbyn hyn. Y gwasanaethau cyfanwerthol sy'n cefnogi'r cysylltiadau hyn sy'n ffurfio'r farchnad mynediad lleol cyfanwerthol (WLA).

1.16 Yn gyffredinol, caiff gwasanaethau band eang eu marchnata gan gyfeirio at gyflymderau llwytho i lawr. Er enghraifft, caiff band eang safonol, sydd â chyflymderau llwytho i lawr o hyd at 30Mbit yr eiliad, ei ddarparu gan ddefnyddio copr i gysylltu cartrefi â chyfnewidfa leol BT bron ym mhob achos. Mae BT bellach wedi gosod ffibr ar gyfer rhan o'r cysylltiad drwy ddefnyddio ffibr i'r cabinet. Fel arfer caiff band eang cyflym iawn, sydd â chyflymderau llwytho i lawr dros 30 Mbit yr eiliad, ei ddarparu gan ddefnyddio cyfuniad o wasanaethau mynediad copr cyfanwerthol BT a'i wasanaethau ffibr i'r cabinet. Gall cysylltiadau band eang ffibr llawn ddarparu cyflymderau 1Gbit yr eiliad neu fwy, ac maent yn fwy dibynadwy.

1.17 Yn y rhan fwyaf o'r wlad, dim ond un neu ddau o rwydweithiau ffisegol sydd. BT (sy'n cyrraedd bron i 100% o gartrefi'r DU) a Virgin Media (sy'n cyrraedd oddeutu 45%) yw'r darparwyr rhwydweithiau mynediad sefydlog mwyaf o bell ffordd, ac mae Virgin Media yn bwriadu ymestyn ei ddarpariaeth i oddeutu 60%. Mae darparwyr rhwydwaith eraill llai yn gweithredu mewn rhannau penodol o'r wlad. O ganlyniad i reoliadau sydd wedi bod ar waith ers tro, mae BT, drwy Openreach, yn darparu mynediad cyfanwerthol at ei rwydwaith i gwmnïau eraill, a'r mwyaf o'r rhain yw Sky a TalkTalk. Mae'r cwmnïau hyn yn cynnig gwasanaethau adwerthol sy'n cystadlu â BT Consumer.

1.18 Mae gwasanaethau band eang cyflym iawn ar gael i dros 90% o adeiladau'r DU. Mae ein dadansoddiad o ddefnydd band eang yn dangos bod y galw am gyflymderau cyflym iawn yn prysur gynyddu. Lle bo hynny ar gael, roedd 50% o'r llinellau band eang yn darparu cyflymderau cyflym iawn erbyn 2017, a rhagwelir y bydd hyn yn uwch na 70% erbyn 2020/21. Ond, er bod y DU yn perfformio'n dda yn rhyngwladol o ran argaeledd a defnydd band eang cyflym iawn, y mae ar ei hôl hi o gymharu â gwledydd eraill o ran band eang ffibr llawn, gyda dim ond 3% o adeiladau yn manteisio ar y mathau hyn o gysylltiadau ar hyn o bryd. Yr her nawr yw edrych i'r dyfodol ac ystyried bod angen annog buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffibr llawn.

1.19 Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r momentwm y tu ôl i fuddsoddi wedi cynyddu, gyda nifer o gystadleuwyr BT yn cyhoeddi cynlluniau i adeiladu rhwydweithiau ffibr llawn newydd:

- Fel y nodwyd uchod, mae Virgin Media yn parhau i ymestyn ei rwydwaith gyda’r nod o gyrraedd pedair miliwn yn rhagor o adeiladau, a hanner o’r rheini i’w cysylltu gan ddefnyddio ffibr-llawn.
- Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd CityFibre gynllun i ddarparu ffibr llawn i filiwn o gartrefi mewn 12 o ddinasoedd yn y pedair blynedd nesaf, mewn cydweithrediad â Vodafone – gyda phosibilrwydd o gyrraedd cymaint â phum miliwn o gartrefi erbyn 2025.
- Mae Hyperoptic wedi cyhoeddi bod ei rwydwaith ffibr bellach yn gwasanaethu 350,000 o adeiladau. Mae ganddo gynlluniau pellach i gyrraedd dwy filiwn o gartrefi trefol erbyn 2022, a phum miliwn erbyn 2025.
- Mae TalkTalk wedi cyhoeddi cynlluniau i gyflwyno ffibr llawn i dair miliwn o adeiladau.
- Mae rhwydwaith Gigaclear yn cyrraedd 60,000 o adeiladau mewn ardaloedd gwledig ac mae’n bwriadu ehangu i 150,000 o adeiladau erbyn 2020.

1.20 Yn ddiweddar, mae BT wedi cyhoeddi cynlluniau i gyflymu’r gwaith o gyflwyno ffibr llawn, gan ymrwymo i gyrraedd hyd at dair miliwn o adeiladau erbyn 2020. Y mae hefyd wedi amlinellu cynlluniau i gyrraedd 10 miliwn erbyn canol y 2020au, yn amodol ar nifer o alluogwyr rheoleiddiol a pholisi cyhoeddus.

## Mesurau i hyrwyddo buddsoddiad a chystadleuaeth

1.21 Ar ôl ymgynghori ynghylch cynigion yn ein hadolygiad o’r farchnad WLA y llynedd, rydym wedi dod i’r casgliad bod BT yn parhau i fod â grym sylweddol yn y farchnad (SMP). Un o’r prif bryderon yw bod grym sylweddol BT yn y farchnad yn lleihau cymhellion BT a’i gystadleuwyr i fuddsoddi mewn rhwydweithiau newydd. Yn y ddogfen hon, rydym yn nodi ein penderfyniadau i roi pecyn cynhwysfawr o fesurau ar waith i fynd i'r afael â’r pryderon o ran cystadleuaeth sy’n codi yng nghyswllt grym sylweddol BT yn y farchnad.

1.22 Mae ein pecyn o fesurau i hyrwyddo buddsoddiad a chystadleuaeth yn cynnwys:

- Mynediad at bibellau a pholion: gwella mynediad at bibellau a pholion BT i hybu buddsoddiad gan gystadleuwyr; o ganlyniad i hynny, bydd buddsoddiad yn y rhwydwaith yn cymell BT i fuddsoddi mewn rhwydweithiau ffibr;
- Pris gwasanaethau cyfanwerthol: parhau i ddarparu hyblygrwydd prisiau ar gyfer gwasanaethau cyfanwerthol BT sydd â chyflymderau dros 40Mbit yr eiliad, gan gyflwyno rheolaeth ar brisiau BT ar gyfer ei brisiau cyfanwerthu ‘hyd at 40Mbit yr eiliad’, er mwyn cefnogi cymhellion BT a’i gystadleuwyr i fuddsoddi yn y gwaith o adeiladu’r rhwydwaith;
- Mynediad at rwydweithiau presennol: cynnal y mynediad a’r rheolaeth prisiau ar rwydwaith copr BT er mwyn amddiffyn defnyddwyr cyn y cyfnod pontio sy’n arwain at fwy o gystadleuaeth rhwng rhwydweithiau, gan gydnabod y bydd yn cymryd amser i adeiladu rhwydweithiau ffibr ac na fydd modd i rwydweithiau gystadlu â’i gilydd ym mhob rhan o'r wlad;
- Gwella ansawdd gwasanaethau: gosod safonau ansawdd uwch ar rwydwaith copr BT er mwyn amddiffyn cwsmeriaid yn ystod y cyfnod pontio sy’n arwain at fwy o gystadleuaeth rhwng rhwydweithiau.

## Mynediad at bolion a phibellau er mwyn hyrwyddo buddsoddiad cystadleuol mewn rhwydweithiau

1.23 Mae costau uchel adeiladu seilwaith ffisegol, fel polion a phibellau, yn rhwystr mewn rhannau sylweddol o'r wlad. Mae grym sylweddol BT yn y farchnad yn golygu nad oes ganddo lawer o gymhelliant i roi mynediad at ei seilwaith ffisegol helaeth i'w gystadleuwyr.

1.24 Er ei bod wedi bod yn ofynnol ar BT i ddarparu mynediad at bolion a phibellau (DPA) ers 2012, dyluniwyd y datrysiad gwreiddiol i gefnogi darparwyr telegyfathrebiadau a oedd yn dymuno cynnig gwasanaethau cyn i BT gyflwyno band eang cyflym iawn, yn enwedig er mwyn cynyddu pa mor gystadleuol yw'r cyllid cyhoeddus i adeiladu rhwydweithiau newydd mewn ardaloedd gwledig. Ni wnaeth darparwyr a oedd yn cystadlu â'i gilydd ddangos diddordeb i ddechrau ac nid oedd llawer o symbyliad i ddatblygu'r datrysiad ymhellach.

1.25 Gan ystyried y flaenoriaeth i annog buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffibr llawn, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar lunio datrysiad ymarferol o ran mynediad at bolion a phibellau, gyda seilwaith sy'n barod i ddarparwyr rhwydwaith sy'n cystadlu â'i gilydd ei defnyddio cyn gynted â phosibl.

1.26 Bydd ein datrysiad DPA yn caniatáu i ddarparwyr telegyfathrebiadau eraill gael mynediad at bibellau a pholion BT mewn modd fwy neu lai mor hawdd â BT ei hun, gan ddefnyddio'r un prosesau, lefelau gwasanaeth, systemau a data mapiau digidol (i'r graddau mwyaf posibl). Rydym yn galluogi rhagor o hyblygrwydd o ran defnyddio polion a phibellau BT er mwyn i ddarparwyr telegyfathrebiadau allu cyflwyno rhwydweithiau mynediad lleol 'defnydd cymysg'. Mae'r rhain yn cynnig gwasanaethau band eang a gwasanaethau heb fod yn fand eang (fel gwasanaethau ôl-gludo symudol) a ddarperir at brif ddiben cyflwyno'r rhwydwaith, sef darparu pecynnau band eang adwerthol. Rydym yn rhannu cost y datrysiad DPA ar draws yr holl wasanaethau sy'n defnyddio polion a phibellau, sy'n golygu y dylai prisiau rhentu ostwng i oddeutu hanner y lefelau presennol.

1.27 Mewn ymateb i sylwadau rhanddeiliaid ar gwmpas y datrysiad DPA a'r prisiau rheoleiddio cysylltiedig, rydym yn darparu rhagor o arweiniad er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i fuddsoddwyr yn y rhwydweithiau ffibr llawn sy'n cystadlu â'i gilydd.

1.28 Gallai ein datrysiad DPA drawsnewid achosion busnes cwmnïau sy'n buddsoddi mewn ffibr – gan leihau'r gost ymlaen llaw tua 50% a lleihau'r amser mynd i'r farchnad, ac arwain at ragor o fuddsoddiad mewn rhwydweithiau amgen yn y dyfodol. Caiff ein penderfyniad i roi'r datrysiad DPA ar waith, a manylion ynghylch sut bydd hyn yn gweithio, eu trafod yng Nghyfrol 3 y datganiad hwn.

## Prisio gwasanaethau cyfanwerthol i gefnogi buddsoddiad mewn rhwydweithiau

1.29 Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o'r darparwyr sy'n cystadlu â BT i gynnig gwasanaethau band eang, gan gynnwys Sky a TalkTalk, yn prynu gwasanaethau cyfanwerthol gan BT. Ni fydd y darparwyr hyn sy'n cystadlu â'i gilydd ond yn buddsoddi yn y gwaith o adeiladu eu rhwydweithiau eu hunain os ydynt yn ystyried hynny'n fwy deniadol na phrynu

gwasanaethau cyfanwerthol gan BT. Hefyd, bydd yr elw mae BT yn gallu ei gael o'i fuddsoddiad yn dylanwadu ar gymhellion BT i fuddsoddi mewn rhwydweithiau newydd, sydd felly'n dibynnu ar y prisiau mae'n gallu eu codi ar wasanaethau a ddarperir ledled y rhwydwaith. Felly mae pris gwasanaethau cyfanwerthol BT yn chwarae rhan bwysig o ran cymhellion buddsoddi, i BT a'i gystadleuwyr.

1.30 Mae prisiau gwasanaethau mynediad copr cyfanwerthol BT wedi bod yn cael eu rheoli ers peth amser. I'r gwrthwyneb, mae BT wedi cael hyblygrwydd o ran sut mae'n pennu prisiau ei wasanaethau ffibr i'r cabinet, er eu bod wedi'u rheoleiddio ers cael eu lansio'n fasnachol yn 2009 drwy rwymedigaeth rydym yn ei galw'n rhith-fynediad lleol wedi'i ddadfwndelu (VULA).

1.31 I bennu prisiau cyfanwerthu lle mae posibilrwydd o gystadleuaeth rhwng rhwydweithiau, mae angen cydbwysedd rhwng cynnal y cymhellion i fuddsoddi mewn adeiladu rhwydweithiau newydd, a'r risg o brisiau adwerthu uwch. Yn gyffredinol, byddai prisiau VULA uwch yn gwneud buddsoddiadau'r gorffennol a'r dyfodol yn fwy proffidiol, ond byddai'r berthynas rhwng prisiau a chymhellion ar gyfer buddsoddiadau newydd yn gymhleth. Yn y tymor hwy, byddai disgwyl i fuddsoddiad mewn rhwydweithiau sy'n cystadlu â'i gilydd esgor ar fuddiannau sylweddol yng nghyswllt arloesi a chystadlu o ran rhagor o ddewis, ansawdd a chymhellion i brisio'n graff. Ond byddai disgwyl i brisiau VULA uwch arwain at brisiau adwerthu uwch, a niwedio defnyddwyr i raddau yn y tymor byrrach. Byddai hynny'n digwydd yn bennaf yn ystod y cyfnod pontio wrth i rwydweithiau newydd gael eu hadeiladu, ac mewn rhannau o'r wlad lle nad yw cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau yn dod i'r amlwg. Ar hyn o bryd mae tua 40% o ddefnyddwyr yn defnyddio gwasanaethau band eang cyflym iawn sy'n dibynnu ar y rhwydwaith Openreach ac rydym yn disgwyl i hwn gynyddu dros y cyfnod adolygu.

1.32 Mewn egwyddor, byddai modd sicrhau cydbwysedd priodol drwy gydnabod bod daearyddiaeth yn chwarae rhan yn y posibilrwydd o gystadleuaeth rhwng rhwydweithiau. Mae rhai ardaloedd o'r wlad (er enghraifft, dinasoedd dwys eu poblogaeth sydd â chyfran uchel o flociau o fflatiau preswyl) yn debygol o fod yn gystadleuol. Yn yr ardaloedd hyn, byddai'n gwneud synnwyr blaenoriaethu cymhellion i fuddsoddi yn y gwaith o adeiladu rhwydwaith. Efallai na fydd ardaloedd eraill o'r wlad (fel cymunedau mwy gwledig) yn gallu cefnogi mwy nag un rhwydwaith ffibr ac yn yr ardaloedd hyn, y flaenoriaeth fyddai amddiffyn defnyddwyr rhag prisiau adwerthu uchel.

1.33 Yn ymarferol, mae achosion busnes ar gyfer cyflwyno rhwydweithiau ffibr yn gymhleth ac yn amrywiol, gan ystyried ystod eang o feini prawf. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiadau o ran costau cyflwyno (er enghraifft, mewn gwahanol ardaloedd daearyddol) ac yn y cyfleoedd am refeniw (fel cynnig gwasanaethau busnes dros y rhwydwaith yn ogystal â band eang neu fwndelu gwasanaethau adwerthol eraill, e.e. symudol, gyda'i gilydd). Yn ystod y cam hwn, nid oes modd pennu ffin ddaearyddol ddibynadwy rhwng ardaloedd cystadleuol posibl, ac ardaloedd na fyddant yn gystadleuol. Mae'r risgiau rheoleiddiol cysylltiedig â rhoi manylion anghywir yn cynnwys peidio ag amddiffyn defnyddwyr rhag prisiau uwch mewn ardaloedd lle nad oes cystadleuaeth yn dod i'r amlwg. I'r gwrthwyneb,

mae risg o rwystro buddsoddiad mewn rhwydweithiau mewn ardaloedd eraill o ganlyniad i reoleiddio'r prisiau cyfanwerthol hynny'n rhy llym.

1.34 Felly rydym wedi ystyried a fyddai modd sicrhau cydbwysedd priodol drwy ystyried gwahanol gynnyrch lled band – gwasanaethau cyflymder is a chyflymder uwch – yn hytrach na gwahanol ardaloedd daearyddol.

1.35 Yn ein hymgynghoriad, fe wnaethom nodi bod hyblygrwydd prisiau ar gyfer gwasanaethau ffibr i'r cabinet, gan reoli cost gwasanaethau copr cyflymder is, wedi llwyddo i gymell buddsoddiad mewn ffibr i'r cabinet a chyfrannu at ddefnydd gwasanaethau band eang cyflym iawn. Mae rhoi cyfle i BT wneud elw teg ar fuddsoddiadau mentrus yn rhan bwysig o'i gymhellion buddsoddi. Mae ein hasesiad yn nodi bod BT wedi cael cyfle i wneud elw rhesymol ar ei fuddsoddiad mentrus cychwynnol mewn ffibr i'r cabinet. Hyd yn oed wrth ystyried ein rheolaeth prisiau ar wasanaethau 'hyd at 40Mbit yr eiliad', mae elw BT ar ei fuddsoddiadau yn llawer uwch na'r gost cyfalaf y gwnaeth ei hysgwyddo ar y pryd, ac yn ddigon i ddigolledu'r risg a wynebodd wrth wneud y buddsoddiad hwn. Cyfeirir at y dull hwn o reoleiddio pris cynnyrch lled band is (neu 'angor') ar sail cost, sy'n darparu lefel o gyfyngiad ar gynnyrch lled band uwch, a fyddai'n cael budd fel arall o hyblygrwydd prisiau, fel 'prisio angor'.

1.36 Rydym yn ystyried y byddai modd cael cydbwysedd priodol rhwng annog buddsoddiad mewn rhwydwaith ac amddiffyn defnyddwyr rhag y risg o brisiau adwerthu uwch drwy barhau â'r dull prisio angor llwyddiannus hwn. Yn yr achos hwn, mae ein dull wedi'i addasu i gydnabod bod y buddsoddiadau bellach yn canolbwyntio ar rwydweithiau ffibr llawn , a bod posibilrwydd o fuddsoddiad cystadleuol; nid dyma oedd yr achos mewn perthynas â buddsoddi mewn ffibr i'r cabinet.

1.37 Rydym wedi penderfynu rheoli prisiau gwasanaeth cyfanwerthu ffibr i'r cabinet BT – sef y gwasanaeth VULA 'hyd at 40Mbit yr eiliad'.[1] Byddwn yn caniatáu i BT barhau i gael hyblygrwydd o ran sut mae'n pennu prisiau gwasanaethau VULA â lled band uwch (ac is), gan gynnwys y rheini sy'n defnyddio technoleg G.fast. Hefyd, ni fydd BT bellach yn rhwym wrth yr Amod Gwahaniaeth Pris mewn perthynas â VULA y gwnaethom ei osod yn 2014.[2]

1.38 Er ein bod yn disgwyl y bydd y rheolaeth prisio ar gyfer VULA 'hyd at 40Mbit yr eiliad' yn cyfyngu i raddau rhesymol ar brisiau cyflymderau eraill a gwasanaethau rhwydwaith ffibr llawn, bydd y cyfyngiad hwn yn gwanhau dros amser. Wrth i'r galw am wasanaethau cyflymder uwch mwy dibynadwy gynyddu, rydym yn disgwyl i bris cyfartalog cysylltiadau cyfanwerthol gynyddu.

1.39 Mae Tabl 1.1. isod yn nodi'r rheolaeth prisio a fydd yn berthnasol i brisiau rhentu VULA yn ystod y cyfnod adolygu. Mae'n ofynnol bod y gwasanaeth 'hyd at 40Mbit yr eiliad' a'r gwasanaeth mynediad copr yn darparu gwasanaethau adwerthol band eang cyflym iawn.

---

[1] Gwasanaeth ffibr i'r cabinet 40/10 BT sy'n darparu cyflymderau llwytho i lawr o hyd at 40Mbit yr eiliad a chyflymderau llwytho i fyny o hyd at 10Mbit yr eiliad.

[2] Roedd Amod Gwahaniaeth Pris VULA yn gosod rhwymedigaethau ar BT i ddarparu digon o fwlch rhwng prisiau adwerthu a chyfanwerthu ac i ddarparu manylion i Ofcom ynglŷn â'r costau a'r refeniw oedd eu hangen i ddangos ei fod yn cydymffurfio, bob chwe mis.

1.40 Bydd y gwaith o reoli prisiau VULA yn dechrau ar 1 Ebrill 2018 ac yn para tan 31 Mawrth 2021. Caiff prisiau eu gostwng o'r lefel bresennol mewn dau gam fel eu bod yn cyd-fynd â'n rhagolygon cost effeithlon yn 2019/20 ac yn parhau i fod yn seiliedig ar gostau yn 2020/21.

**Tabl 1.1. Rheoli prisiau VULA**[3]

| | Pris blynyddol cyfredol | Prisiau blynyddol (£-nominal) | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
| Rhent ffibr i'r cabinet 40/10 ('hyd at 40Mbit yr eiliad') | £88.80 | £69.59 | £61.12 | £59.91 |
| Rhent mynediad copr[4] | £84.38 | £85.46 | £84.95 | £84.84 |
| **Pris rhent cyfun** | **£173.18** | **£155.05** | **£146.07** | **£144.75** |

*Mae rhai o'r ffigurau yn y tabl hwn a pharagraff 1.41 isod wedi eu newid a cheir eglurhad am hyn yn y nodyn Saesneg hwn: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0011/114203/Explanatory-note-modification-SMP-condition-7a.pdf

1.41 Byddai'r pris rhent cyfun yn 2020/21 yn £12.06 y mis, ac y mae 7% yn uwch na chanolrif yr ystod y gwnaethom ymgynghori yn ei gylch ym mis Mawrth 2017.

1.42 I atal BT rhag rhwystro buddsoddiad newydd gan gystadleuwyr wrth i gystadleuaeth rhwng rhwydweithiau ddatblygu, ni fydd gan BT hawl i leihau prisiau rhentu cyfanwerthol mewn ardaloedd daearyddol penodol lle mae cystadleuwyr yn dechrau adeiladu rhwydweithiau newydd.

1.43 Caiff ein penderfyniad i bennu rheolaeth prisiau ar gyfer gwasanaethau VULA ei nodi yn Adran 9, ac fe nodir ein rheolaeth prisiau yng Nghyfrol 2 y datganiad hwn.

### Rheoleiddio prisiau yn y dyfodol

1.44 Rydym yn cydnabod y bydd yn cymryd amser i adeiladu rhwydweithiau newydd ac i sefydlu ein strategaeth i annog buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffibr llawn ar raddfa fawr. Yn ystod yr amser hwnnw, byddem yn disgwyl i'r cyfyngiad ar brisiau gwasanaethau VULA cyflymach, o ganlyniad i'r gwasanaethau VULA 'hyd at 40Mbit yr eiliad' seiliedig ar gostau, wanhau.

1.45 Ni allwn ragweld pa gamau y byddwn yn eu cymryd yn y dyfodol, oherwydd bydd unrhyw benderfyniadau am brisiau mewn adolygiadau yn y dyfodol yn cael eu gwneud yn unol â'r amgylchiadau a'r fframwaith cyfreithiol a fydd yn berthnasol bryd hynny. Fodd bynnag, nid ydym yn disgwyl ymestyn ein rheolaeth prisiau y tu hwnt i'r gwaith reoli prisiau mynediad copr a gwasanaethau VULA 'hyd at 40Mbit yr eiliad' yn seiliedig ar gostau fel mater o drefn.

1.46 Yn hytrach, gyda buddsoddiad cynyddol gan ddarparwyr sy'n cystadlu â'i gilydd a rhagolygon gwell o ran cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau, rydym yn disgwyl i

[3] Rydym wedi diweddaru nifer o fewnbynnau i'r modelau rheoli prisiau wedi'u seilio ar wybodaeth newydd neu ddiwygiedig (yn arbennig o ran chwyddiant a chostau pensiwn BT). Mae hyn wedi cael yr effaith o gynyddu lefel y rheolau prisiau.
[4] Darperir mynediad copr gyda dwy lefel wahanol yng nghyswllt ansawdd gwasanaeth: lefel un a lefel dau. Rydym wedi penderfynu gosod y rheolaeth pris ar lefel un gan fod y diwydiant yn gwneud mwy a mwy o ddefnydd o'r lefel hon.

adolygiadau yn y dyfodol ystyried yr achos dros symud oddi wrth reoleiddio prisiau VULA. Mewn amser, mae'n debyg y gwelwn fwy o wahaniaethu yn ein dull rheoleiddio ar draws y DU. Mae ein strategaeth yn rhagweld y bydd angen gwahanol reoliadau mewn gwahanol ardaloedd daearyddol.

1.47 Mewn ardaloedd lle mae tystiolaeth bod pwysau cystadleuol yn dod i'r amlwg, byddem yn disgwyl dadreoleiddio. I'r gwrthwyneb, ar gyfer y llefydd y mae'n dod i'r amlwg na fydd cystadleuaeth ynddynt, mae risg gynyddol o brisiau uchel ar gyfer gwasanaethau cyflymder uwch. Yn yr ardaloedd daearyddol hynny, er y byddem yn disgwyl rheoleiddio prisiau cyfanwerthol, byddem yn gwneud hynny mewn modd sy'n ystyried lefel y risg ar yr adeg y cafodd y buddsoddiadau eu gwneud.

1.48 O ystyried yr heriau o ran pennu'r meini prawf ar gyfer gwahaniaethu rhwng ardaloedd daearyddol y mae posibilrwydd y byddant yn gystadleuol neu ddim yn gystadleuol, bydd angen i adolygiadau o'r farchnad yn y dyfodol ystyried y meini prawf hyn yn ofalus ar sail y ffeithiau sy'n berthnasol ar yr adeg. Yn wyneb yr ansicrwydd hwn, y disgwyl yw y byddwn yn parhau i osod pwys ar y perygl o niwed i ddefnyddwyr sy'n deillio o lesteirio buddsoddiad gan ddarparwyr sy'n cystadlu â'i gilydd. Ein man cychwyn felly fydd rhoi mwy o bwyslais ar hyrwyddo buddsoddiad.

1.49 Rydym hefyd yn gweithio gyda BT a darparwyr rhwydweithiau eraill i ganfod datrysiadau ymarferol i hwyluso'r cyfnod pontio i rwydweithiau ffibr llawn, gan sicrhau nad yw'r cyfnod hwn yn amharu ar brofiadau defnyddwyr. Rydym yn cydnabod ei bod yn fuddiol rhoi rhagor o eglurder o ran egwyddorion rheoleiddiol, fel yr egwyddor 'menter deg', a ddylai fod yn berthnasol i fuddsoddiadau mentrus newydd, yn ogystal â rhoi rheolau ar waith a allai effeithio ar y broses o symud oddi wrth rwydweithiau copr a chael gwared â'r rhwydweithiau hynny yn y pen draw. Nid yw'r egwyddorion y dylent fod yn berthnasol yn rhan o gwmpas yr adolygiad hwn o'r farchnad, ond fe fyddwn yn ystyried newidiadau ynghylch cystadleuaeth a buddiannau cwsmeriaid.

## Sicrhau mynediad a phrisiau rheoledig ar gyfer rhwydweithiau presennol

1.50 O ystyried y bydd yn cymryd amser i adeiladu rhwydweithiau ffibr ac na fydd yn bosibl cael cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau ym mhob rhan o'r wlad, rydym wedi penderfynu rhoi mesurau ar waith i amddiffyn defnyddwyr a'r gystadleuaeth adwerthu yng nghyswllt rhwydwaith presennol BT.

1.51 Rydym wedi penderfynu bod rhaid i BT barhau i ddarparu mynediad cyfanwerthol, gan gynnwys mynediad at ei rwydwaith ffibr llawn, gan gydnabod na fydd yn ymarferol bosibl i ddarparwyr eraill adeiladu rhwydweithiau cystadleuol ledled y DU. Fodd bynnag, dylai BT barhau i gael yr hyblygrwydd i osod prisiau cyfanwerthol y gwasanaethau ffibr llawn lle bo gwasanaethau ffibr i'r cabinet wedi'u rheoleiddio hefyd ar gael. Yn y nifer cyfyngedig o achosion lle mae BT wedi cyflwyno rhwydweithiau ffibr llawn, ond heb gynnig gwasanaethau band eang cyflym iawn eraill, bydd y dull prisio angor yn berthnasol, sy'n cyfuno hyblygrwydd prisiau ar gyfer cyflymderau uwch a rheolaeth ar y gwasanaeth ffibr llawn 40Mbit yr eiliad.

1.52 Ein prif amcan ar gyfer rhwydwaith copr BT yw cynnal trefn reoleiddio sefydlog yn ystod y cyfnod pontio sy'n arwain at fwy o gystadleuaeth rhwng rhwydweithiau, ac amddiffyn defnyddwyr y rhwydwaith rhag y risg o brisiau uwch. Bydd y rhan fwyaf o gwsmeriaid sy'n defnyddio gwasanaethau sefydlog a ddarperir drwy rwydwaith Openreach yn parhau i ddibynnu ar y rhwydwaith copr yn ystod y cyfnod adolygu, gan gynnwys llawer o gwsmeriaid band eang cyflym iawn.

1.53 Dyma ein prif benderfyniadau yng nghyswllt rheoleiddio mynediad copr:

- Rhaid i BT barhau i gynnig dadfwndelu dolenni lleol (LLU)[5], sy'n rhoi rheolaeth dros y cysylltiad mynediad copr i gystadleuwyr. Byddwn yn parhau i osod rheolaeth pris ar sail cost ar y prif fath o LLU a'r gwasanaethau cefnogol a ddefnyddir gan gystadleuwyr BT;
- cael gwared â'r rhwymedigaeth benodol o ran mynediad at rwydwaith a'r rheolaeth pris ar LLU a rennir. Rhaid i BT barhau i ddarparu mynediad rhwydwaith i LLU a rennir ar gais rhesymol ac am brisiau teg a rhesymol, a bydd yn amodol ar ddyletswydd dim gwahaniaethu'n ormodol.

1.54 Mae'r rheolaeth prisio ar fynediad copr (y prif fath o LLU) yn esgor ar bris rhentu sefydlog ar y cyfan yn ystod y tair blynedd nesaf, gyda chostau sylfaenol wedi'u hamcangyfrif ar sail tebyg i'r rhai a ddefnyddiwyd yn flaenorol (gweler Tabl 1.1 uchod). Bydd y cyfnod rheoli yn para o 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2021. Caiff ein penderfyniad i bennu rheolaeth prisiau ar gyfer mynediad copr ei nodi yn Adran 10, ac fe nodir ein rheolaeth prisiau yng Nghyfrol 2 y datganiad hwn.

## Gwella ansawdd gwasanaeth

1.55 Bydd cystadleuaeth effeithiol rhwng rhwydweithiau yn darparu dewis ac arloesedd i bobl a busnesau, gyda darparwyr rhwydweithiau yn cystadlu o ran pris a nodweddion eraill, gan gynnwys ansawdd y gwasanaeth.

1.56 Yn ystod y cyfnod pontio tuag at ragor o gystadleuaeth a chyflwyno rhwydweithiau ffibr llawn ar raddfa fawr, bydd gwasanaeth o ansawdd da ar rwydwaith presennol BT yn angenrheidiol er mwyn sicrhau cystadleuaeth effeithiol. Mae gwasanaeth cyfanwerthol o ansawdd gwael yn cyfyngu ar allu darparwyr telegyfathrebiadau i gynnig gwasanaethau gwahaniaethol i'w cwsmeriaid, ac efallai y bydd defnyddwyr yn gyndyn o newid darparwr. Mae pŵer sylweddol BT yn y farchnad o ran diffyg rheoleiddio yn golygu nad oes ganddo gymhelliant digonol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd ar lefel briodol, nac i arloesi i wella ansawdd y gwasanaeth.

1.57 Yn 2014, fe wnaethom osod rheoliadau ansawdd gwasanaeth newydd ar BT mewn perthynas ag atgyweirio diffygion a gosod llinellau band eang newydd ar ei rwydwaith copr. Roedd hyn yn angenrheidiol er mwyn sefydlogi perfformiad BT, a oedd wedi dirywio'n fawr yn ystod y blynyddoedd blaenorol.

[5] Proses y  mae BT yn ei defnyddio i gynnig mynediad at ei rwydwaith copr i ddarparwyr telegyfathrebiadau eraill yw LLU.

1.58 Fel yn nodir yn Adran 8, rydym wedi penderfynu cynnwys pŵer gwneud cyfarwyddiadau yn yr amodau SMP a fydd yn ein galluogi ni i osod safonau ansawdd gwasanaeth priodol ar BT. Mae manylion ein amodau ansawdd gwasanaethau – sydd wedi'u hymestyn i gynnwys gwasanaethau ffibr i'r cabinet BT – wedi'u nodi yn ein Datganiad Ansawdd Gwasanaethau.